estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector nas cynhelir – Tymor y Gwanwyn 2021

Mawrth 2021



# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector nas cynhelir – Tymor y gwanwyn 2021

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o alwadau ffôn ymgysylltu a wnaed i 267 o leoliadau nas cynhelir rhwng diwedd mis Medi 2020 a chanol mis Chwefror 2021. Mae wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod galwadau ffôn gydag arweinwyr lleoliadau. Yn ystod tymor yr hydref, cysylltom yn unig â lleoliadau mewn awdurdodau lleol oedd yn ariannu addysg gynnar y tymor hwnnw. O fis Ionawr 2021, rydym wedi cysylltu â lleoliadau ym mhob awdurdod lleol sy'n cynnig addysg gynnar mewn lleoliadau nas cynhelir. Y ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles plant a staff, a sut roedd lleoliadau yn cefnogi dysgu ac yn ailsefydlu darpariaeth yn dilyn y cyfnod clo. Mae cyfrannau'n perthyn i'r sampl o leoliadau yr ydym wedi cysylltu â nhw.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

## Cynnwys


Prif ganfyddiadau .... **1**
- Lles plant a staff .... 1
- Cefnogi dysgu .... 1
- Ailsefydlu darpariaeth .... 2

**Lles plant a staff .... 3**
- Lles plant .... 3
- Lles staff .... 4
- Cymorth ar gyfer dysgwyr bregus .... 5
- Diogelu .... 6

**Cefnogi dysgu .... 6**
- Statws lleoliadau yn ystod cyfnodau clo .... 6
- Cymorth ar gyfer plant a rhieni / gofalwyr yn ystod cyfnodau clo .... 7

**Ailsefydlu darpariaeth .... 10**
- Ailagor .... 10
- Presenoldeb .... 12
- Gweithgareddau plant .... 13
- Cymorth gan awdurdodau lleol .... 14
- Cymorth gan sefydliadau ymbarél .... 14
- Lleoliadau cyfrwng Cymraeg .... 14
- Trefniadau gofal cofleidiol .... 15

# Prif ganfyddiadau

## Lles plant a staff

Dywed arweinwyr fod y rhan fwyaf o blant wedi ymgartrefu'n dda ac addasu'n gyflym yn unol â gweithdrefnau ac arferion newydd, wedi iddynt ddychwelyd i'w lleoliad yn dilyn cyfnod gartref.  Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr fod plant yn gyffrous i weld eu ffrindiau ac aelodau staff eto, a'u bod yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau.

Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr fod staff yn bryderus ynglŷn â dychwelyd i'r gwaith ar y cychwyn, er bod llawer ohonynt yn falch o fod yn ôl wedi iddynt ymgyfarwyddo â'r drefn.  Fodd bynnag, ers y cyfnod clo ym mis Ionawr, dywed lleiafrif o arweinwyr fod morâl staff yn isel.  Mae hyn oherwydd bod ysgolion wedi cau i'r holl blant heblaw plant bregus a phlant gweithwyr allweddol, ond bod lleoliadau wedi aros yn agored ar gyfer yr holl blant.  Maent yn poeni am eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd, ac yn pryderu am drosglwyddo straeniau newydd y feirws.

Dywedodd tua hanner y lleoliadau a nododd ddysgwyr bregus na chafodd y cyfnod clo cychwynnol effaith andwyol ar blant, a bod gan lawer o'r plant hyn fynediad at leoliadau hyb.  Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae mynediad at wasanaethau arbenigol wedi gwella ar y cyfan trwy gydol tymor yr hydref, ac i mewn i dymor y gwanwyn, er bod amrywiad o hyd yn y gwasanaethau sy'n cynnig cymorth a chyngor trwy ymweld â'r lleoliad, a'r rhai sy'n cynnig hyn yn gyfan gwbl ar-lein.  Dywed y rhan fwyaf o leoliadau nad ydynt wedi nodi na rhoi gwybod am unrhyw bryderon newydd ynghylch diogelu.

## Cefnogi dysgu

Dewisodd llawer o leoliadau gau ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf.  Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i niferoedd isel y plant oedd yn gymwys i fynychu dan ganllawiau Llywodraeth Cymru ar yr adeg honno.  Arhosodd ychydig o leoliadau yn agored naill ai fel hyb gofal plant lleol neu hyb yr awdurdod lleol ar gyfer y plant hynny oedd yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws.  Fodd bynnag, dywedodd ychydig o arweinwyr lleoliadau a oedd wedi aros yn agored trwy gydol y cyfnod clo yn 2020 eu bod wedi cael  anawsterau ariannol o ganlyniad.

Ailagorwyd ychydig o leoliadau ym mis Gorffennaf ar yr un pryd ag ysgolion.  Roedd y rhan fwyaf o leoliadau wedi ailagor ar gyfer dechrau tymor yr hydref gan fod rhieni'n teimlo ei bod yn ddigon diogel i'w plant ddychwelyd.  Fodd bynnag, cafodd y cynnydd yng nghyfraddau heintiau COVID-19 ar ddiwedd tymor yr hydref effaith ar leoliadau, a chaewyd ychydig ohonynt yn gynnar ar gyfer gwyliau'r Nadolig.  Ym mis Ionawr 2021, ni wnaeth lleiafrif o leoliadau ailagor am amrywiaeth o resymau, yn cynnwys nifer uchel yr achosion COVID-19 yn eu hardal, ac aelodau staff yn hunanynysu neu'n profi'n bositif am y feirws.  Mewn ychydig iawn o achosion, penderfynodd arweinwyr beidio ag ailagor oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd yn ddiogel gwneud hynny, gan fod ysgolion wedi aros ar gau.

Ymdrechodd y rhan fwyaf o leoliadau i gynorthwyo plant a rhieni / gofalwyr yn ystod y cyfnod clo. Defnyddiont ystod o ddulliau i sicrhau eu bod yn cynnal cyfathrebu rheolaidd â'u teuluoedd, gan ddarparu cyngor ac arweiniad yr oedd eu hangen yn fawr ar sut i gynorthwyo plant gartref. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n ymddangos bod y berthynas waith rhwng lleoliadau a rhieni wedi cryfhau dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Ailsefydlu darpariaeth**

Ailagorwyd llawer o leoliadau ym mis Mehefin 2020, yn dilyn cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ei bod yn ddiogel i leoliadau ddechrau ailsefydlu addysg a gofal plant ar gyfer pob plentyn. Roedd ailgyflwyno Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ym mis Medi yn hwb i leoliadau a gafodd ei groesawu.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gwnaeth lleoliadau newidiadau pwysig i'w trefn ddyddiol i leihau risg trosglwyddo COVID-19. Parhaodd y rhan fwyaf o leoliadau i addasu eu cynlluniau ar gyfer grwpio plant yn rheolaidd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Dywedodd bron pob lleoliad eu bod wedi sefydlu protocolau a gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli heintiau ers ailsefydlu darpariaeth. Yn y lleoliadau hyn, mae glanhau a diheintio offer ac adnoddau yn rheolaidd wedi dod yn rhan o'u trefn ddyddiol.

Yn gyffredinol, dywedodd lleoliadau fod y canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar ailagor a gweithredu lleoliadau gofal plant ac addysg yn ddiogel yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, roedd maint y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â pha mor aml y newidiodd y negeseuon ar ddechrau'r pandemig, yn aml yn llethu arweinwyr.

Wrth i leoliadau ddechrau ailagor ym mis Mehefin 2020 yn dilyn y cyfnod clo cyntaf, dywedodd lleiafrif ohonynt y bu gostyngiad yn niferoedd y plant yn mynychu. Ym mis Medi, dywedodd llawer ohonynt fod presenoldeb bron yn ôl i lefelau disgwyliedig am yr adeg o'r flwyddyn. Mewn ychydig o ardaloedd ledled Cymru, dywedodd lleoliadau y bu gostyngiad mewn presenoldeb bob hyn a hyn yn ystod tymor yr hydref wrth i gyfraddau coronafeirws gynyddu mewn ychydig o awdurdodau lleol. Yn dilyn cyflwyno mesurau clo pellach gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr, dywedodd llawer o leoliadau y bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant yn mynychu. Mewn ychydig o achosion, penderfynodd arweinwyr beidio ag ailagor ym mis Ionawr o ganlyniad i'r diffyg galw gan rieni.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau wedi addasu eu darpariaeth yn dda i sicrhau bod plant wedi parhau i fanteisio ar brofiadau a gweithgareddau dysgu gwerth chweil fel rhan o'u hawl i addysg gynnar. Er y bu'n rhaid iddynt wneud addasiadau angenrheidiol i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i ddarparu ystod o brofiadau sy'n datblygu medrau plant yn briodol.

Er bod ansawdd y cymorth a gafodd lleoliadau gan eu hawdurdod lleol yn amrywio yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, gwelodd y rhan fwyaf o leoliadau fod y cymorth yn fuddiol, ar y cyfan. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi elwa ar y cyngor a'r cymorth maent wedi'u cael gan eu Hathro

Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar. Yn ychwanegol, mae llawer o leoliadau sy'n gysylltiedig â sefydliad ymbarél wedi gweld eu cymorth yn fuddiol.

Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg lle mae ychydig iawn o blant yn siarad Cymraeg gartref, dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr fod datblygiad Cymraeg plant wedi dirywio yn ystod y cyfnod clo. Dywed llawer o leoliadau sy'n defnyddio cynllun iaith a grewyd gan eu sefydliad ymbarél y bu'n hynod effeithiol yn datblygu medrau Cymraeg plant a staff.

Pan mae plant nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref wedi dechrau mynychu lleoliadau o fis Medi 2020, mae ymarferwyr wedi parhau â'u harferion trochi arferol i ddatblygu medrau Cymraeg plant.

Ers dechrau'r pandemig, mae lleiafrif o leoliadau naill ai wedi terfynu eu darpariaeth gofal cofleidiol neu wedi lleihau nifer y casgliadau o ganlyniad i broblemau staffio neu heriau cynnal 'swigod'. Pan mae gweithdrefnau casglu cofleidiol ar waith, dywed lleoliadau eu bod wedi cwblhau asesiadau risg manwl a newid gweithdrefnau i gyfyngu ar ledaeniad y feirws. Yn aml, mae'r trefniadau hyn yn fwy llafurus o ganlyniad i wahanol drefniadau casglu mewn ysgolion.

## Lles plant a staff

### Lles plant

Trwy gydol y pandemig, mae lleoliadau'n dweud wrthym eu bod wedi gweithio'n galed i greu amgylchedd cynnes, croesawgar a diogel ar gyfer plant ifanc. Dywed arweinwyr fod y rhan fwyaf o blant wedi ymgartrefu'n dda ac addasu'n gyflym yn unol â gweithdrefnau ac arferion newydd, wedi iddynt ddychwelyd i'w lleoliad yn dilyn cyfnod estynedig gartref. Roedd y rhain yn cynnwys trefniadau fel rhieni'n eu gollwng wrth y drws yn hytrach na mynd â nhw i mewn i'r lleoliad. Mewn lleiafrif o leoliadau, canfu arweinwyr fod ychydig o blant yn bryderus pan na chaniatawyd i'w rhiant fynd i mewn i'r adeilad.

**Cameo – E-lyfrau â lluniau i blant**

Datblygodd staff mewn un lleoliad e-lyfr ar gyfer plant i helpu lleddfu unrhyw bryderon am ddychwelyd i'r lleoliad. Dangosodd yr e-lyfr sut roedd y lleoliad wedi newid a sut byddent yn cael eu croesawu'n ôl. Helpodd y dull hwn y plant i ymgartrefu'n ôl yn gyflym. Rhannwyd yr e-lyfr â rhieni ar gyfryngau cymdeithasol, a rhannodd staff yn y lleoliad yr e-lyfr â'r plant a oedd yn parhau i fynychu'r lleoliad trwy gydol y cyfnod clo hefyd.

Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr fod plant yn gyffrous i weld eu ffrindiau ac aelodau staff eto, ac yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau. Dywedodd ychydig ohonynt fod plant wedi'i chael yn anodd addasu i'r amgylchedd a addaswyd a'r arferion newydd; er enghraifft mewn nifer fach o achosion, atgoffodd plant rai o'r plant eraill i gadw pellter oherwydd y feirws. Fe wnaeth hyn wella wrth i amser fynd rhagddo, ac wrth i blant ddod i arfer â chymdeithasu eto. Hefyd, nododd ychydig

ohonynt fod plant yn bryderus ynglŷn â’r amseroedd dechrau a gorffen amrywiol a’u bod wedi drysu ynghylch pam nad oeddent wedi cael eu casglu, pan oedd plant eraill wedi gadael yn gynharach.

**Cameo – Tedis yn dangos sut i gadw pawb yn ddiogel**

Mewn ychydig o leoliadau, roedd ymarferwyr yn defnyddio tedis yr oedd y plant yn gyfarwydd â nhw i’w dangos yn gwisgo mygydau a ffedogau i gadw pawb arall yn ddiogel.  Helpodd hyn i roi tawelwch meddwl i’r plant, a’u helpu i ddeall pam roedd staff yn gwisgo gorchuddion wyneb a chyfarpar diogelu personol mewn ffordd a oedd yn addas ar gyfer plant.

Ers y cyfnod clo ym mis Rhagfyr, bu gostyngiad yn nifer y plant yn mynychu rhai lleoliadau.  Yn y lleoliadau hyn, mae ymarferwyr wedi nodi bod plant yn holi am eu ffrindiau nad ydyn nhw wedi eu gweld ers tro, a bod ychydig ohonynt yn poeni ynglŷn â ble maen nhw.

### Lles staff

Mae arweinwyr mewn lleoliadau wedi rhoi blaenoriaeth uchel i les staff.  Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod staff yn bryderus ar y cychwyn ynglŷn â dychwelyd i’r gwaith, er bod llawer ohonynt yn falch o fod yn ôl wedi iddynt arfer â’r drefn.  Yn y lleoliadau hyn, mae arweinwyr wedi datblygu trefniadau i helpu staff yn ôl i’r gwaith, fel galwadau ‘ailgydio’ rheolaidd, cyfarfodydd adborth, a chynnwys staff yn y broses asesu risg cyn cyflwyno arferion a gweithdrefnau newydd.  Mae hyn wedi lleddfu pryderon y rhan fwyaf o staff.  Fodd bynnag, ers y cyfnod clo ym mis Ionawr, dywed lleiafrif o arweinwyr fod morâl staff yn isel.  Mae hyn oherwydd bod ysgolion ar gau i’r holl blant heblaw plant bregus a phlant gweithwyr allweddol, ond roedd lleoliadau wedi aros ar agor i’r holl blant.  Roeddent yn amgyffred bod ysgolion wedi cau oherwydd ei bod yn anniogel iddynt aros ar agor.  Maent yn poeni am eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd, ac yn pryderu am drosglwyddo straeniau newydd y feirws.

**Cameo – Cydweithio â lleoliadau eraill mewn clinigau Cwtch**

Mae un lleoliad wedi sefydlu ‘clinigau Cwtch’ trwy gymhwysiad negeseua i alluogi arweinwyr o leoliadau eraill yn yr awdurdod lleol i drafod problemau a rhannu atebion.  Mae arweinwyr o’r farn fod hyn wedi bod yn fuddiol iddynt ac yn fforwm defnyddiol i drafod pryderon a rhannu cyngor, neu ofyn am gyngor.  Dywedant wrthym ni ei bod yn dda siarad â rhywun sydd â phrofiad uniongyrchol o’r un problemau, a dealltwriaeth o anghenion y sector.

**Cameo – Hyrwyddwyr lles**

Mae un lleoliad wedi hyfforddi un o’i staff i fod yn ‘Hyrwyddwr Lles’ y lleoliad.  Mae hyn yn cynnwys cyfeirio staff at sefydliadau cymorth ac at asiantaethau a allu ddarparu cyngor ac arweiniad ar wahanol faterion lles, fel cymorth iechyd meddwl.

Mewn llawer o leoliadau, rhoddwyd aelodau staff ar ffyrlo yn ystod y cyfnod clo cychwynnol ym mis Mawrth 2020 ac o dro i dro ers hynny. Dywed arweinwyr fod hyn yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd swydd i staff, ar y cyfan. Pan ailagorwyd lleoliadau, dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr fod bron pob un o'r staff wedi dychwelyd i'r gwaith. Mae ychydig o leoliadau yn nodi nad yw nifer fach o staff wedi dychwelyd i'w rolau blaenorol, er y bu hyn yn bennaf o ganlyniad i resymau nad ydynt yn gysylltiedig â Covid. Mewn ychydig o leoliadau, mae'r gostyngiad yn nifer y plant yn mynychu wedi arwain at ddiswyddiadau.

Yn ystod tymor yr hydref, dywed arweinwyr mewn ychydig o leoliadau eu bod yn teimlo wedi eu llethu gan faint o wybodaeth a chyngor a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau ymbarél. Dywed y rhan fwyaf o arweinwyr fod hyn wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl yn ystod y cyfnod hwn.

Ers dechrau tymor y gwanwyn yn 2021, dywed arweinwyr fod staff yn poeni fwyfwy am golli eu swyddi o ganlyniad i'r straen ariannol ar lawer o leoliadau. Maent yn ofnus am hyfywedd eu lleoliadau yn y dyfodol, yn enwedig y rhai sydd eisoes wedi ystyried diswyddo staff. Mae'r rhain wedi bod yn bennaf o ganlyniad i broblemau cyllid a gostyngiad yn niferoedd y plant yn mynychu'r lleoliad. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar les arweinwyr a pherchnogion, sy'n ansicr ynglŷn â dyfodol eu lleoliadau.

**Cymorth ar gyfer dysgwyr bregus**

Dywedodd tua hanner y lleoliadau a nododd ddysgwyr bregus nad oedd y cyfnod clo cychwynnol wedi cael effaith andwyol ar blant, a bod llawer o'r plant hyn wedi cael mynediad at leoliadau hyb. Llwyddodd llawer o'r lleoliadau hyn i gynnal cyswllt rheolaidd â theuluoedd, fel defnyddio platfformau rhithwir, gwneud galwadau ffôn neu anfon negeseuon e-bost i gynnig cymorth pan fydd angen. Er enghraifft, cynigiodd un lleoliad sesiwn ychwanegol ar fore dydd Gwener i roi seibiant i rieni a oedd yn ei chael yn anodd gartref.

Teimlai arweinwyr mewn ychydig o leoliadau fod meini prawf yr awdurdod lleol ynglŷn â chael mynediad at hybiau yn anghyson neu'n aneglur. Yn yr achosion hyn, roedd lleoliadau yn aml yn ansicr ynglŷn â pha blant y caniatawyd iddynt fynychu.

Yn ystod tymor yr hydref, dywedodd lleiafrif o leoliadau iddynt gael anhawster yn manteisio ar wasanaethau arbenigol ar gyfer dysgwyr bregus, fel sesiynau therapi a ffisiotherapi. Maent yn teimlo bod hyn wedi cael effaith andwyol ar gynnydd plant. Yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, mae mynediad at wasanaethau arbenigol wedi gwella ar y cyfan trwy gydol tymor yr hydref, ac i mewn i dymor y gwanwyn, er bod amrywiad o hyd yn y gwasanaethau sy'n cynnig cymorth a chyngor trwy ymweld â'r lleoliad, a'r rhai sy'n cynnig hyn yn gyfan gwbl ar-lein.

Mae ychydig o leoliadau wedi gweithio gyda'u Hathrawon Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar a'u Swyddogion Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o bell i ddatblygu gweithgareddau i gynorthwyo plant â phroblemau lleferydd ac iaith. Er enghraifft, maent wedi cwblhau asesiad o anghenion plant ac wedi cynllunio gweithgareddau penodol gyda chymorth i helpu dysgu plant.

**Cameo – Darparu cymorth ymarferol ar gyfer teuluoedd**

Mewn un lleoliad, darparont gymorth ymarferol ar gyfer plant bregus a'u teuluoedd. Casglodd staff eitemau'r cartref a pharatoi parseli bwyd i deuluoedd, yn enwedig y rhai oedd yn ei chael yn anodd yn ariannol.  Dywed arweinwyr fod teuluoedd yn gwerthfawrogi'r cymorth a roddodd y lleoliad iddynt yn ystod cyfnod mor anodd.

### Diogelu

Ers y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, dywed y rhan fwyaf o leoliadau nad ydynt wedi nodi nac adrodd am unrhyw bryderon newydd ynghylch diogelu.  Mewn ychydig iawn o leoliadau lle gwnaed atgyfeiriadau, neu ble roedd plant eisoes ar y gofrestr amddiffyn plant, dywed arweinwyr eu bod wedi cael anhawster yn cysylltu â gweithwyr cymdeithasol.  Bu'n heriol iddynt ddod o hyd i wybodaeth neu gael unrhyw adborth am y pryderon a godwyd ganddynt.

Mewn ychydig iawn o leoliadau, parhaodd prosesau amddiffyn plant fel cyfarfodydd grwpiau craidd trwy ddefnyddio platfformau rhithwir.  Yn y lleoliadau hyn, cysylltodd staff â theuluoedd yn rheolaidd ac anfon pecynnau dysgu unigoledig ar gyfer plant.

## Cefnogi dysgu

### Statws lleoliadau yn ystod cyfnodau clo

Dewisodd llawer o leoliadau gau ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf.  Roedd yn bennaf o ganlyniad i niferoedd isel y plant oedd yn gymwys i fynychu o dan ganllawiau Llywodraeth Cymru ar y pryd.  Arhosodd ychydig o leoliadau ar agor naill ai fel hyb gofal plant lleol neu hyb yr awdurdod lleol ar gyfer y plant hynny oedd yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws.  Roedd hyn yn cynnwys plant bregus neu blant gweithwyr allweddol.  Dywedodd ychydig o arweinwyr eu bod wedi dewis aros ar agor oherwydd bod eu cymunedau a'u teuluoedd yn dibynnu ar eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn.  Yn sgil cyflwyno 'Cynllun Cymorth Cadw Swyddi' Llywodraeth Cymru, galluogwyd arweinwyr i roi eu staff ar ffyrlo lle nad oedd y galw am leoedd gofal plant yn ddigonol i dalu'r costau gweithredol.  Dywedodd llawer o leoliadau fod cyflwyno'r cynllun 'ffyrlo hyblyg' yn ddiweddarach wedi eu galluogi i ailagor yn raddol pan oedd yn ddiogel gwneud hynny, gyda staff yn aml yn gweithio llai o oriau i fodloni'r galw am leoedd. Fodd bynnag, dywedodd ychydig o arweinwyr lleoliadau a oedd wedi aros ar agor trwy gydol y cyfnod clo yn 2020 eu bod wedi cael anawsterau ariannol o ganlyniad. Yn y lleoliadau hyn, teimlai arweinwyr y bu'n rhaid iddynt ddefnyddio eu cronfeydd ariannol wrth gefn i aros ar agor, a darparu gwasanaeth ar gyfer eu cymuned.

**Cameo – Rheoli cau ac ailagor**

Caeodd y lleoliad ei ddrysau ar 24 Mawrth, ac ailagor ym mis Mehefin.  Roedd y penderfyniad i gau yn anodd, ond penderfynodd yr ymddiriedolwyr nad oedd yn gynaliadwy agor ar gyfer yr ychydig iawn o blant gweithwyr allweddol neu blant bregus oedd ganddynt ar y pryd.  Ailagorodd ym mis Mehefin, oherwydd bod

arweinwyr o'r farn fod angen cefnogaeth ar deuluoedd yn eu cymuned wledig, yn enwedig oherwydd bod llawer ohonynt yn teimlo eu bod wedi eu hynysu, ac wedi mynd yn bryderus yn ystod y cyfnod clo. Agorwyd y lleoliad am ychydig oriau bob dydd i ddechrau er mwyn cynorthwyo nifer fach o blant a'u teuluoedd. Cynyddodd presenoldeb yn araf trwy gydol mis Mehefin a mis Gorffennaf, a buan oedd y lleoliad yn ôl i'w gapasiti llawn. Erbyn diwedd mis Awst, roedd yn darparu gofal cofleidiol llawn, yn cynnwys darpariaeth yn ystod gwyliau'r haf ar gyfer disgyblion ysgol gynradd lle rhoddwyd camau diogelwch llym ar waith.

Ailagorwyd ychydig o leoliadau ym mis Gorffennaf ar yr un pryd ag ysgolion. Roedd y rhan fwyaf o leoliadau wedi ailagor ar gyfer dechrau tymor yr hydref oherwydd bod rhieni'n teimlo ei bod yn ddigon diogel i'w plant ddychwelyd. Parhaodd y lleoliadau hyn i fanteisio ar y cynllun ffyrlo hyblyg i helpu rheoli cyllid, yn enwedig lle roedd eu cyfraddau presenoldeb yn fwy amrywiol. Roedd ailgyflwyno Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ym mis Medi yn hwb i leoliadau a gafodd ei groesawu wrth iddynt ailsefydlu darpariaeth. Fodd bynnag, cafodd y cynnydd yng nghyfraddau heintiau COVID-19 ar ddiwedd tymor yr hydref effaith ar leoliadau, a chaewyd ychydig ohonynt yn gynnar ar gyfer cyfnod y Nadolig.

Ym mis Ionawr 2021, ni wnaeth lleiafrif o leoliadau ailagor am amrywiaeth o resymau, yn cynnwys nifer uchel yr achosion COVID-19 yn eu hardal, ac aelodau staff yn hunanynysu neu'n profi'n bositif am y feirws. Mewn ychydig iawn o achosion, penderfynodd arweinwyr beidio ag ailagor oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd yn ddiogel gwneud hynny, gan fod ysgolion wedi aros ar gau. Hefyd, roedd y ffaith fod llai o blant yn mynychu rhai lleoliadau ar ôl gwyliau'r Nadolig yn golygu nad oedd yn hyfyw i ychydig iawn o leoliadau ailagor. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn ganlyniad uniongyrchol cau ysgolion gan eu bod yn aml yn rhannu'r un adeilad neu wedi eu lleoli yn rhywle arall ar safle'r ysgol. Mewn ychydig iawn o amgylchiadau, roedd arweinwyr a staff yn ymwybodol nad oedd llawer o rieni yn y gymuned wedi glynu at y canllawiau cenedlaethol dros gyfnod y Nadolig, ac roeddent yn ofni y byddent yn eu rhoi eu hunain mewn perygl pe baent yn ailagor y lleoliad ym mis Ionawr.

**Cymorth ar gyfer plant a rhieni / gofalwyr yn ystod cyfnodau clo**

Ymdrechodd y rhan fwyaf o leoliadau i gefnogi plant a rhieni / gofalwyr yn ystod y cyfnod clo. Defnyddiont ystod o ddulliau i sicrhau eu bod yn cynnal cyfathrebu rheolaidd â'u teuluoedd, gan ddarparu cyngor ac arweiniad roedd ei angen yn fawr ar sut i gynorthwyo plant gartref. Soniodd y rhan fwyaf o leoliadau am gynnydd yn y defnydd o blatfformau cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu'n rheolaidd â'u teuluoedd, a bod ychydig o arweinwyr yn defnyddio'r rhain i gyfathrebu am y tro cyntaf. Defnyddiodd llawer o ymarferwyr y dechnoleg hon i gadw mewn cysylltiad â'r plant i'w hatgoffa am amgylchedd y lleoliad a'r staff, er enghraifft trwy bostio fideos ohonyn nhw eu hunain yn darllen llyfrau stori neu'n canu caneuon a hwiangerddi cyfarwydd. Yn ychwanegol, defnyddiodd y rhan fwyaf o leoliadau'r platfformau cyfryngau cymdeithasol i ddarparu gweithgareddau defnyddiol i rieni eu gwneud gyda'u plant gartref, er enghraifft pobi bisgedi, mynd ar helfa chwilod o gwmpas yr ardd neu dyfu blodau haul o hadau. Hefyd, fe wnaethant amlygu adnoddau ac arweiniad pwysig gan sefydliadau eraill, yn cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau ymbarél a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn gynnar iawn yn ystod y cyfnod clo

ym mis Mawrth 2020, roedd ychydig o leoliadau yn ansicr ynglŷn â faint y gallent gefnogi rhieni pe baent yn cael eu rhoi ar ffyrlo o dan y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws. Mewn achosion o'r fath, darparodd yr awdurdod lleol gymorth ac arweiniad ar gyfer rhieni, er nad oedd gan ychydig ohonynt systemau ar waith i ddechrau i gysylltu â rhieni yn uniongyrchol.

**Cameo – Gweithredu fel hyb**

Mae'r lleoliad yn ffurfio rhan o bartneriaeth o dri lleoliad. Penderfynodd y rheolwr gau dau o'r tri lleoliad yn yr ardal, a gweithredu un ohonynt fel hyb gofal plant fel hyb ar gyfer plant gweithwyr allweddol a dysgwyr bregus. Sicrhaodd hyn fod y lleoliad yn aros yn hyfyw yn economaidd tra'n parhau i ddarparu gofal plant sydd ei angen yn fawr yn y gymuned. Rhoddwyd y rhan fwyaf o staff ar ffyrlo, a gofynnwyd i ambell aelod o staff o bob lleoliad weithio yn yr hyb. Helpodd hyn i ddarparu parhad ar gyfer y plant. Ailagorodd y ddau leoliad arall i'r holl blant ar 22 Mehefin yn unol â chanllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru.

Defnyddiodd ychydig o leoliadau blatfformau rhithwir yn rheolaidd i gyfathrebu'n uniongyrchol â phlant a rhieni / gofalwyr. Galluogodd hyn rieni i ofyn i ymarferwyr am gyngor a chymorth yn uniongyrchol, yn ogystal ag atgoffa plant am y lleoliad a'r oedolion sy'n gyfarwydd iddynt. Er enghraifft, defnyddiodd ymarferwyr mewn lleoliad blatfform cyfarfod rhithwir i siarad â rhieni o leiaf ddwywaith yr wythnos, yn ogystal â hwyluso sesiynau amser stori a dawns ar gyfer eu plant. Defnyddiodd ychydig o leoliadau gyfryngau cymdeithasol a phlatfformau cyfarfod rhithwir yn dda i helpu rhoi gwybod i rieni am y mesurau diogelwch roeddent yn eu rhoi ar waith i alluogi plant i ddychwelyd pan oedd yn ddiogel gwneud hynny. Er enghraifft, paratôdd staff mewn lleoliad fideo ar gyfer rhieni a phlant i ddangos iddynt y mesurau diogelwch newydd roeddent wedi eu cyflwyno, yn ogystal â chynllun newydd yr ystafell i helpu cadw'r plant mewn swigod. Pan mae lleoliadau yn ymwybodol o rieni nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd, yn gyffredinol, maent yn dod o hyd i wahanol ffyrdd o gyfleu gwybodaeth bwysig.

Defnyddiodd ychydig o leoliadau blatfformau digidol yn fuddiol i gyfathrebu â phlant yn ystod cyfnodau clo. Er enghraifft, defnyddiodd ychydig o leoliadau cyfrwng Cymraeg blatfform digidol i siarad â'r plant yn Gymraeg er mwyn iddynt elwa ar glywed yr iaith, a'i defnyddio.

Mae mwyafrif o leoliadau wedi sefydlu gweithdrefnau newydd ar gyfer cyfathrebu â darpar rieni, fel trefnu ymweliadau â'r lleoliad ar gyfer rhieni ar ôl i blant adael, neu drwy rannu teithiau rhithwir o'r lleoliadau ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol.

**Cameo – Cyfathrebu â phlant a rhieni**

Mewn un lleoliad, sefydlodd yr arweinydd grŵp rhithwir ar gyfer yr holl deuluoedd sydd â phlant newydd y disgwylir iddynt ddechrau ym mis Medi. Defnyddiont y grŵp hwn i rieni ofyn cwestiynau am arferion ac amseroedd dechrau, ac ati. Cyflwynodd staff meithrin eu hunain i blant a'u teuluoedd trwy'r cymhwysiad, a chynnwys fideos o'r amgylchedd dysgu. Teimlai'r arweinydd fod hyn wedi gweithio'n dda gan nad oedd plant wedi gallu ymgymryd â'r gweithgareddau ymsefydlu a phontio arferol. Mae holl blant y teuluoedd sydd wedi defnyddio'r grŵp wedi dechrau mynychu'r lleoliad.

**Cameo – Dal i fyny â phlant, rhieni a staff**

Mewn un lleoliad, ffrydiodd yr arweinydd sesiwn fyw bob wythnos trwy ddefnyddio grŵp cyfryngau cymdeithasol caeedig. Defnyddiodd yr amser hwn i 'ddal i fyny' â phlant a rhieni ac unrhyw staff nad oeddent yn y gwaith. Cerddodd o gwmpas y lleoliad er mwyn i blant a theuluoedd allu gweld y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd. Defnyddiodd rhieni'r cyfle hwn i gyfathrebu â'r staff ac fel platfform i ddathlu cyflawniadau eu plant gartref, fel cysgu trwy'r nos a dysgu reidio beic.

Defnyddiodd yr arweinydd gyfryngau cymdeithasol hefyd i anfon heriau wythnosol at rieni, fel trefnu her cystadleuaeth bobi lle gallai teuluoedd bobi unrhyw beth roeddent yn ei hoffi, a rhannu llun o'r canlyniadau â'r grŵp. Mwynhaodd plant bobi amrywiaeth o fwyd, yn cynnwys cacennau creision reis, pizza a chacennau caws. Casglodd yr arweinydd y lluniau hyn a'u rhoi mewn llyfr lloffion y gallai plant ei weld wedi iddynt ddychwelyd i'r feithrinfa ym mis Medi.

Creodd lleiafrif o leoliadau becynnau dysgu i blant eu defnyddio gartref. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y rhain yn cynnwys eitemau fel hadau ar gyfer tyfu planhigion, deunyddiau celf, gweithgareddau creu marciau ac offer arall i blant ei ddefnyddio gartref. Hefyd, sefydlodd ychydig o leoliadau weithdrefnau arloesol i helpu plant â'u dysgu, fel sefydlu cynllun cyfnewid teganau rhwng teuluoedd neu drwy roi llyfrau ar fenthyg iddynt. Creon nhw brotocolau diogelwch a hylendid ar gyfer defnyddio unrhyw offer i'w gyfnewid neu rannu llyfrau.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n ymddangos bod y berthynas waith rhwng lleoliadau a rhieni wedi cryfhau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi bod yn ystyriol i beidio â rhoi gormod o bwysau ar rieni a gofalwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mewn ychydig o enghreifftiau, fe wnaeth ymarferwyr annog rhieni a gofalwyr i gysylltu â nhw pe bai angen cymorth neu gyngor arnynt, yn cynnwys ynglŷn â sut i ofalu am eu lles eu hunain, gan eu bod yn cydnabod bod teuluoedd yn eu hardal yn ei chael yn anodd o dan bwysau pandemig y coronafeirws.

**Cameo – Dangos cynnydd plant**

Mae'r lleoliad wedi defnyddio platfform rhithwir i wella'r cysylltiadau â'r cartref, a gwneud cadw cofnodion ac asesiadau mor dryloyw ag y bo modd. Hefyd, mae wedi lleihau'r baich gwaith i staff wrth greu seiliau tystiolaeth, ac mae'n dangos cynnydd plant ar-lein, o ran eu dysgu a'u lles, i rieni ei weld ac ymgysylltu ag ef yn effeithiol.

**Cameo – Cefnogi dysgu gartref**

Bob dydd Mercher, postiodd y lleoliad fideo ar y thema gardd i gefnogi dysgu'r plant gartref yn ystod y cyfnod clo. Roedd y rhain yn cynnwys ffilm ar gamera nos o ddraenogod yn bwydo, blodau'r gwanwyn yn dechrau tyfu a recordiadau o adar yn canu. Casglodd un aelod o'r pwyllgor falwod, a chreu fideo ohonynt fel y gallai plant eu harsylwi a gweld eu hôl. Mae syniadau eraill a rannwyd â rhieni yn cynnwys casglu blodau i'w trefnu yn ôl eu maint a chreu patrymau. Darparodd hyn destunau trafod ar gyfer plant a'u teuluoedd, yn ogystal â helpu atgyfnerthu medrau cyfathrebu a rhifedd pwysig.

## Ailsefydlu darpariaeth

### Ailagor

Ailagorwyd llawer o leoliadau ym mis Mehefin yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ei bod yn ddiogel i leoliadau ddechrau ailsefydlu addysg a gofal plant ar gyfer yr holl blant. O ganlyniad, dywed bron yr holl leoliadau eu bod wedi defnyddio asesiad risg a ddarparwyd gan eu sefydliad ymbarél neu asesiad risg ysgol (os yw wedi'i leoli mewn ysgol) i adolygu eu darpariaeth. Rhannodd ychydig o leoliadau fideos o'r trefniadau newydd hyn gyda rhieni trwy gyfryngau cymdeithasol. Dywedant fod hyn wedi lleddfu llawer o bryderon cyn i rieni anfon eu plant yn ôl.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gwnaeth lleoliadau newidiadau pwysig i'w trefn ddyddiol i leihau risg trosglwyddo COVID-19. Gwnaeth bron yr holl leoliadau newidiadau pwysig i'w trefniadau ar gyfer gollwng a chasglu plant, ac ni chaniatawyd i rieni fynd i mewn i'r adeilad mwyach. Parhaodd y rhan fwyaf o leoliadau i addasu eu cynlluniau ar gyfer grwpio plant yn rheolaidd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Pan fydd niferoedd mwy o blant yn mynychu lleoliadau, ar y cyfan, maent yn ceisio cadw plant mewn 'swigod' cyson. Mae hyn yn eu galluogi i gadw'r lleoliad yn agored os bydd ganddynt unrhyw achosion o COVID-19 trwy ei gwneud yn ofynnol i staff a phlant yn y swigen honno yn unig hunanynysu. Yn ychwanegol, dywedodd mwyafrif o leoliadau eu bod yn canolbwyntio mwy ar eu harferion glanhau llym i leihau trosglwyddo'r feirws, a llai ar gadw'r plant mewn swigod bach. Gwnaeth llawer o leoliadau ddefnydd llawn o'u darpariaeth awyr agored ar ôl ailagor i helpu lleihau risg lledaenu'r haint. Neilltuodd y lleoliadau hyn amser a buddsoddi arian i wella eu gofodau awyr agored yn ystod y cyfnod clo cychwynnol er mwyn defnyddio cymaint o'r gofod awyr agored ag y bo modd. Llwyddodd ychydig ohonynt i gael

cyllid grant i brynu offer fel canopïau, sy'n eu galluogi i wneud defnydd llawn o'r awyr agored trwy gydol y flwyddyn.

Dywedodd bron pob un o'r lleoliadau eu bod wedi sefydlu protocolau a gweithdrefnau rheoli heintiau ers ailsefydlu darpariaeth. Yn y lleoliadau hyn, mae glanhau a diheintio offer ac adnoddau yn rheolaidd wedi dod yn rhan o'u trefn ddyddiol. Er i lawer o arweinwyr ddweud ar y cychwyn bod hyn yn llafurus ac yn gostus iawn o ganlyniad i'r cynnydd mewn deunyddiau glanhau a oedd yn angenrheidiol, mae wedi bod yn llwyddiannus i raddau helaeth o ran cyfyngu lledaeniad yr haint heb effeithio gormod ar brofiadau dysgu plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gwahanu adnoddau mewn blychau i'w gwneud yn haws eu glanhau a'u sychu ag aer dros nos. Mae lleiafrif o leoliadau wedi creu casgliadau o lyfrau sy'n gallu cael eu storio am 72 awr cyn eu defnyddio eto. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o leoliadau wedi lleihau faint o offer sydd ar gael i blant ar unrhyw adeg, ac wedi gwneud addasiadau rhesymol i weithgareddau fel y pwll tywod a thybiau dŵr. Y tro diwethaf i ni gyfathrebu â lleoliadau, dywed llawer o arweinwyr fod gweithdrefnau glanhau estynedig bellach yn rhan o'r drefn arferol i ymarferwyr a'u bod yn llai o faich na phan gawsant eu hailagor i ddechrau.

Dywed bron yr holl leoliadau fod plant wedi addasu'n dda i arferion newydd; er enghraifft, maen nhw nawr yn golchi eu dwylo'n rheolaidd trwy gydol y dydd ac yn gwybod faint sy'n gallu chwarae ar ddarnau amrywiol o offer neu ymgasglu mewn ardaloedd dysgu. Mae mwyafrif o leoliadau sesiynol wedi rhoi'r gorau i ddarparu byrbrydau ar gyfer plant ac yn gofyn i rieni a gofalwyr ddarparu cinio pecyn ar eu cyfer. Lle mae lleoliadau'n cynnig byrbrydau o hyd, dywed ymarferwyr fod 'amser byrbryd' yn tueddu i gael ei arwain yn fwy gan oedolion nag o'r blaen i leihau risg trosglwyddo haint. Fodd bynnag, mae llawer o leoliadau yn sôn am ffyrdd arloesol o alluogi plant i barhau i ddatblygu eu hannibyniaeth yn ystod y gweithgaredd hwn, er enghraifft trwy ofyn iddynt gasglu eu blwch cinio pecyn eu hunain oddi ar y troli neu drwy gasglu eu diod oddi ar y cownter.

Dywed bron yr holl leoliadau fod cost cyfarpar diogelu personol wedi cael effaith ddifrifol ar eu costau cynnal. Fodd bynnag, mae'r defnydd gwirioneddol o gyfarpar diogelu personol, fel mygydau wyneb a feisorau, wedi amrywio ar draws lleoliadau. Nid yw mwyafrif ohonynt yn defnyddio mygydau wyneb na feisorau yn ystod arferion dyddiol normal gyda phlant, ac maent yn eu defnyddio ar gyfer cynorthwyo plant â'u hylendid personol a pharatoi byrbryd yn unig.

Yn gyffredinol, dywedodd lleoliadau fod y canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar ailagor lleoliadau gofal plant ac addysg yn ddiogel, a'u gweithrediad, yn ddefnyddiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe wnaeth yr arweiniad atodol a ddarparwyd gan sefydliadau ymbarél helpu arweinwyr i ddeall negeseuon allweddol yn well a goblygiadau unrhyw hysbysiadau neu gyhoeddiadau newydd gan Lywodraeth Cymru. Helpodd hyn iddynt ddatrys unrhyw negeseuon anghyson a oedd yn bodoli o bryd i'w gilydd rhwng canllawiau ar gyfer lleoliadau, a chanllawiau ar gyfer ysgolion. Roedd maint y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â pha mor aml y newidiodd y negeseuon ar ddechrau'r pandemig, yn aml yn llethu arweinwyr.

**Cameo – Sicrhau bod heintiau yn cael eu rheoli'n effeithiol**

Datblygodd grŵp o leoliadau o dan yr un reolaeth ystod gynhwysfawr o gamau rheoli heintiau trwy gydol y pandemig.  Wedi iddynt gyrraedd y lleoliad, caiff tymheredd staff a phlant ei wirio, a rhaid iddynt olchi a diheintio eu dwylo ar unwaith.  Gofynnir i rieni, gofalwyr a staff wisgo mygydau wyneb wrth ollwng eu plant neu'u casglu o'r lleoliad.  Ni chaniateir i unrhyw rieni na gofalwyr fynd i mewn i'r adeilad.  Lle bo'n bosibl, caiff iwnifformau staff eu golchi yn y lleoliad, ac mae staff yn newid yn y lleoliad i leihau risg halogi.  Mae pob un o'r staff wedi eu hyfforddi i wybod sut i lanhau a diheintio offer a dodrefn wrth iddynt weithredu polisi 'glanhau wrth fynd' y lleoliad.  Mae arweinwyr yn monitro safonau glanweithdra ac yn sicrhau eu bod yn cyfleu eu disgwyliadau uchel yn glir i bob un o'r staff.  Darperir cyfarpar diogelu personol ar gyfer yr holl staff, ac mae'n rhaid iddynt wisgo'r cyfarpar wrth baratoi bwyd neu wrth gynorthwyo plant â hylendid personol.  Mae gan bob lleoliad ystafell ynysu ddynodedig ar gyfer staff a phlant os byddant yn teimlo'n sâl yn ystod sesiwn.  Mae cyfarpar diogelu personol priodol wedi'i osod yn yr ystafell, a rhaid dilyn rheolau llym fesul cam i sicrhau arferion ynysu cadarn.  O ganlyniad i weithdrefnau rheoli heintiau trylwyr, mae'r arweinydd yn credu bod pob un o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â phrotocolau'r lleoliad, ac mae'r protocolau diheintio a glanhau trylwyr rheolaidd a'r cwarantinau bellach yn rhan o'r arferion normal o ddydd i ddydd.

## Presenoldeb

Wrth i leoliadau ddechrau ailagor ym mis Mehefin 2020 yn dilyn y cyfnod clo cyntaf, dywedodd lleiafrif ohonynt fod gostyngiad yn niferoedd y plant a oedd yn mynychu, ar y cychwyn.  Fe wnaethant nodi bod hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith fod rhieni'n bryderus ynglŷn ag anfon eu plant yn ôl neu nad oedd angen gofal plant arnynt mwyach, gan eu bod yn gweithio gartref neu wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu wedi cael eu diswyddo.  Mewn ychydig o achosion, cyfyngodd lleoliadau ar niferoedd y plant a oedd yn mynychu yn ystod yr wythnosau cyntaf ar ôl ailagor i dreialu eu systemau rheoli haint, a sicrhau bod ganddynt ddigon o staff ar gael i fodloni'r cymarebau plant i oedolion.

Ym mis Medi, dywedodd llawer o leoliadau fod cyfraddau presenoldeb bron yn ôl i'r hyn y byddent yn ei ddisgwyl am yr adeg honno o'r flwyddyn.  Cynyddodd lleiafrif o leoliadau niferoedd y plant yn mynychu wrth iddynt ddarparu ar gyfer plant o leoliadau nad oeddent wedi ailagor yn dilyn y cyfnod clo cychwynnol.  Sefydlodd ychydig o leoliadau system ymateb diwrnod cyntaf ar gyfer plant sy'n absennol, y maent yn ei defnyddio i fonitro p'un a yw'r plentyn yn absennol o ganlyniad i ddangos symptomau COVID-19.  Mewn ychydig o ardaloedd ledled Cymru, dywedodd lleoliadau y bu gostyngiad mewn presenoldeb o dro i dro yn ystod tymor yr hydref wrth i gyfraddau coronafeirws gynyddu mewn ychydig o awdurdodau lleol.

Yn dilyn cyflwyno mesurau clo pellach gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr, dywedodd llawer o leoliadau y bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant a oedd yn mynychu.  Nododd arweinwyr fod hyn yn bennaf o ganlyniad i ysgolion yn cau a rhieni'n penderfynu gofalu am eu plant gartref, ynghyd â'u brodyr a'u chwiorydd.  Mewn ychydig o achosion, penderfynodd arweinwyr beidio ag ailagor ym mis Ionawr o ganlyniad i ddiffyg galw gan rieni.

## Gweithgareddau plant

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau wedi addasu eu darpariaeth yn dda i sicrhau bod plant wedi parhau i allu elwa ar brofiadau a gweithgareddau dysgu gwerth chweil fel rhan o'u hawl i addysg gynnar. Er y bu'n rhaid iddynt wneud addasiadau angenrheidiol i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i ddarparu ystod o brofiadau sy'n datblygu medrau plant yn briodol. Er enghraifft, mae lleoliadau wedi parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau cyfathrebu plant ar draws ystod o weithgareddau. Mae bron pob lleoliad wedi gwneud defnydd da o'r amgylchedd dysgu awyr agored i sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar brofiadau dysgu buddiol yn niogelwch cymharol yr awyr agored. Mae lleoliadau wedi gwneud addasiadau defnyddiol i'r ddarpariaeth hon trwy osod canopïau, offer chwarae yn yr awyr agored, a thrwy wneud defnydd gwell o'r amgylchedd naturiol i sicrhau eu bod yn parhau i ddefnyddio'r awyr agored trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau wedi addasu eu hamgylchedd dysgu dan do i helpu gwella eu mesurau rheoli heintiau. Er enghraifft, yn aml, maent wedi tynnu dodrefn meddal o'u lleoliad ac wedi cyfyngu ar ystod yr offer sydd ar gael i'r plant ar unrhyw adeg benodol. Mae rhai lleoliadau'n defnyddio sebon gwrthfacterol mewn dŵr, ac yn diheintio tywod yn rheolaidd. Mae hyn wedi eu galluogi i ddefnyddio cymaint o'r offer mawr ag y bo modd. Fodd bynnag, mae defnyddio hambyrddau tywod, toes chwarae ac offer arall yn amrywio llawer o un lleoliad i'r llall, wrth i arweinwyr geisio sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli haint a manteision darparu'r profiad dysgu.

Dywed y rhan fwyaf o arweinwyr fod ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynnar mewn ffordd debyg i'r hyn wnaethon nhw cyn y pandemig. Yn y rhan fwyaf o achosion, bu'n rhaid iddynt addasu eu cynllunio a'u darpariaeth yn rheolaidd i ddiwallu anghenion y dysgwyr, oherwydd gallai'r tarfu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fod wedi effeithio ar eu dysgu. Dywed llawer ohonynt y bu'n rhaid iddynt fabwysiadu dull cynllunio 'ar y pryd' i fod yn fwy hyblyg i ganiatáu ar gyfer y patrymau presenoldeb mwy amrywiol, a sylwi ar anghenion penodol plant unigol sydd wedi colli amser yn y lleoliad.

**Cameo – Cynyddu amser sy'n cael ei dreulio yn yr awyr agored**

Mewn un lleoliad, mae'r plant wedi bod yn treulio amser cynyddol y tu allan. Maent wedi bod yn gwneud pasteiod a diodydd mwd ac wedi defnyddio adeiladu ar raddfa fawr yn frwdfrydig gan greu pontydd dros bwll o fwd y gwnaethant ei gloddio eu hunain. Mae plant wedi datblygu eu chwarae yn annibynnol trwy ychwanegu deinosoriaid, cloddwyr a cheir. Mae'r arweinydd yn credu bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau'r plant, yn cynnwys eu medrau meddwl a datrys problemau, eu medrau personol a chymdeithasol, rhifedd a chyfathrebu. Hefyd, maent yn defnyddio ystod fwy o iaith fathemategol wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, er enghraifft trwy ddefnyddio geiriau fel uwch ac is, dros ac o dan wrth drafod eu gwaith gyda'i gilydd a gydag oedolion eraill. Mae eu medrau corfforol wedi datblygu'n gryf wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau cydbwyso heriol pan fyddant yn croesi'r mwd ar drawstiau mantoli. Mae'r arweinydd yn credu bod defnyddio'r gofod awyr agored fel hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ymgysylltiad plant, a'u bod yn mwynhau'r profiadau dysgu hynod ddifyr hyn yn fawr.

## Cymorth gan awdurdodau lleol

Er bod ansawdd y cymorth a gafodd lleoliadau gan eu hawdurdod lleol yn amrywio yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, gwelodd y rhan fwyaf o leoliadau fod y cymorth a gawsant yn fuddiol, ar y cyfan.  Yn y rhan fwyaf o achosion, mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi elwa ar y cyngor a'r cymorth maen nhw wedi'u cael gan eu Hathro Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar.  Yn yr awdurdodau hyn, maent wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â lleoliadau, ac wedi darparu cyngor a chymorth ar weithgareddau dysgu.  Mae'r defnydd cynyddol o offer digidol i gynnal cyfarfodydd rhithwir gyda lleoliadau wedi bod yn eithriadol o werthfawr, a dywed bron pob arweinydd eu bod wedi elwa llawer ar drafod materion â'u Hathro Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar a'u cydweithwyr.  Yn ychwanegol, darparodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gyfleoedd datblygiad proffesiynol ar-lein a rhithwir priodol ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr.  Er enghraifft, fe wnaeth ymarferwyr elwa ar hyfforddiant cymorth cyntaf, a medrau lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn ogystal â sut i ddefnyddio'r amgylchedd dysgu awyr agored i ddatblygu medrau plant.

Darparodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol weithgareddau dysgu, cyngor a chymorth defnyddiol rheolaidd i arweinwyr ac ymarferwyr, i'w rhoi i deuluoedd, yn ogystal ag amlygu adnoddau dysgu eraill, y gellid eu rhannu â rhieni a gofalwyr. Fodd bynnag, mewn ychydig o awdurdodau lleol, dywedodd arweinwyr lleoliadau cyfrwng Cymraeg nad oeddent bob amser yn cael cymorth a chyngor priodol i'w helpu i gefnogi eu teuluoedd yn ystod y cyfnod clo.

## Cymorth gan sefydliadau ymbarél

Mae llawer o leoliadau sy'n gysylltiedig â sefydliad ymbarél wedi gweld eu cymorth yn fuddiol.  Mae'r cymorth hwn wedi amrywio o arweiniad ymarferol ynglŷn â materion gweithredol, yn cynnwys polisïau ac asesiadau risg, i weithgareddau sy'n cefnogi dysgu.  Fodd bynnag, dywedodd ychydig o leoliadau na chawsant unrhyw gymorth nac arweiniad gan eu sefydliad ymbarél.

## Lleoliadau cyfrwng Cymraeg

Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg lle mae ychydig iawn o blant yn siarad Cymraeg gartref, dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr fod datblygiad plant yn y Gymraeg wedi dirywio yn ystod y cyfnod clo.  Yn y lleoliadau hyn, mae ymarferwyr yn dychwelyd at y pethau sylfaenol, fel cyflwyno lliwiau, rhifau, a dyddiau'r wythnos.  Dywed llawer o leoliadau sy'n defnyddio cynllun iaith a grewyd gan eu sefydliad ymbarél y bu'n hynod effeithiol yn datblygu medrau Cymraeg plant a staff.

Mewn ychydig o leoliadau, dywed ymarferwyr fod gweithgareddau ar-lein yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, fel 'Clwb Cylch' Mudiad Meithrin a gweithgareddau eraill a ddarperir gan y lleoliad, wedi galluogi plant i gynnal eu medrau Cymraeg, o leiaf.  Yn y lleoliadau hyn, mae ymarferwyr yn nodi bod cymorth a brwdfrydedd rhieni wrth gymryd rhan mewn caneuon a phatrymau iaith gartref wedi bod o fudd i ddatblygiad plant yn y Gymraeg hefyd.

Pan mae plant nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref wedi dechrau mynychu lleoliadau o fis Medi 2020, mae ymarferwyr wedi parhau â'u harferion trochi arferol i ddatblygu medrau Cymraeg plant.

**Trefniadau gofal cofleidiol**

Yn ystod tymor yr hydref, ailddechreuodd llawer o leoliadau gynnig darpariaeth gofal cofleidiol, fel clwb brecwast, a chynnig cinio i blant yn y lleoliad.  Maent wedi defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru i addasu eu gweithdrefnau yn briodol.

Fe wnaeth llawer o leoliadau, sy'n cynnig gwasanaeth gofal cofleidiol i gasglu plant o ysgolion, ailddechrau'r ddarpariaeth hon hefyd.  Yn ystod tymor yr hydref, dywedodd ychydig o leoliadau fod cyfathrebu ag ysgolion yn arbennig o wael o ran y cymhlethdodau yn gysylltiedig â chasglu a gollwng plant ar amseroedd amrywiol.  Bu ychydig o leoliadau yn rhagweithiol yn ysgrifennu at ysgolion i rannu gwybodaeth am weithdrefnau gofal cofleidiol, er nad ymatebodd pob ysgol i'r cyfathrebu hwn, a rhoddodd hyn faich ychwanegol ar leoliadau.  Yn ystod tymor y gwanwyn, dywedodd lleiafrif o leoliadau y cysylltwyd â nhw fod y trefniadau ar gyfer gollwng a chasglu plant wedi gwella.  Yn yr ysgolion hyn, yn aml, roedd penaethiaid a staff yn trefnu mannau casglu mewn rhan dawelach o'r adeilad neu ar iard yr ysgol ar gyfer lleoliadau i gasglu plant.

Ers dechrau'r pandemig, mae lleiafrif o leoliadau naill ai wedi terfynu eu darpariaeth gofal cofleidiol neu wedi lleihau nifer y casgliadau o ganlyniad i broblemau staffio neu heriau cnnal 'swigod'.  Lle mae gweithdrefnau casglu cofleidiol ar waith, dywed lleoliadau eu bod wedi cwblhau asesiadau risg manwl a newid gweithdrefnau i gyfyngu ar ledaeniad y feirws, er enghraifft trwy osod sgriniau rhwng y gyrrwr a'r plant ar fws mini a sicrhau bod plant yn defnyddio hylif diheintio dwylo cyn defnyddio cludiant.  Yn aml, mae'r trefniadau hyn yn fwy llafurus o ganlyniad i wahanol drefniadau casglu mewn ysgolion.